

Cofrestr
Risg
Gymunedol
Gwent



Cyflwyniad

Croeso i'r Gofrestr Risg Gymunedol ar gyfer ardal Fforwm Cydnerth Lleol Gwent.

Er ei bod yn annhebygol iawn y bydd unrhyw un ohonom byth yn cael ein dal mewn argyfwng, mae'n ffaith anffodus o fywyd eu bod yn digwydd. Pan fydd argyfyngau'n digwydd, mae ganddynt y potensial i fygwth ac amharu ar fywydau unigolion a'r gymuned, weithiau gyda chanlyniadau difrifol.



Mae'r Gofrestr Risg Gymunedol yn tynnu sylw at y prif risgiau sydd â'r potensial mwyaf i gael effaith sylweddol ar drigolion a busnesau yn ardal Gwent.

Cynlluniwyd y llyfryn hwn i'ch hysbysu am y risgiau hynny a'u canlyniadau posibl.

Yn ogystal ag amlinellu pa waith sy'n digwydd yn ardal Gwent i leihau effaith argyfyngau, mae'r llyfryn hwn hefyd yn darparu gwybodaeth i'ch helpu i feddwl am yr hyn y gallwch ei wneud i baratoi eich hun yn well, eich teulu, eich busnes a'ch cymuned i leihau effeithiau cael eich dal mewn argyfwng.



Beth yw Fforwm Cydnerth Lleol Gwent?

Mae Fforwm Cydnerth Lleol Gwent yn cwmpasu ardal Heddlu Gwent ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, asiantaethau iechyd, Asiantaethau'r Môr a Gwylwyr y Glannau, cyfleustodau, y fyddin a Llywodraeth Cymru ynghyd â sefydliadau gwirfoddol ac asiantaethau preifat eraill.

Ein nod strategol yw:

'Sefydlu a chynnal trefniadau amlasiantaethol effeithiol er mwyn ymateb i argyfyngau mawr, er mwyn lleihau effaith yr argyfyngau hynny ar y cyhoedd, eiddo ac amgylchedd ardal Heddlu Gwent, ac er mwyn bodloni'n llawn ofynion Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.'

Mae'r holl asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod y paratodau a'r cynlluniau gorau posibl mewn lle er mwyn atal, paratoi ar gyfer, ymateb ac ymadfer ar argyfyngau mawr a allai gael effaith sylweddol ar y cymunedau yn ardal Heddlu Gwent. Caiff y rhain eu profi'n rheolaidd a'u diweddarau fel y gall asiantaethau ymateb yn effeithiol ac mewn modd amserol.

Pam yr ydym yn bodoli

Wedi ein sefydlu fel un o ofynion Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, fforymau gwydnwch lleol yw'r prif fecanwaith ar gyfer cydweithio rhwng asiantaethau er mwyn sicrhau y cyflawnir y dyletswyddau a nodwyd yn y ddeddf yn effeithiol.

Mae'r dyletswyddau hyn fel a ganlyn:

- Asesu'r risg o argyfyngau'n digwydd a defnyddio hyn i lywio cynlluniau wrth gefn;
- Rhoi cynlluniau argyfwng ar waith;
- Rhoi trefniadau rheoli parhad busnes ar waith;
- Rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am faterion amddiffyn sifil a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd mewn argyfwng;
- Rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella'r cydgysylltu;
- Cydweithio ag ymatebwyr lleol eraill i wella'r cydgysylltu a'r effeithlonrwydd;
- Darparu cyngor a chymorth i fusnesau a mudiadau gwirfoddol ynghylch rheoli parhad busnes (awdurdodau lleol yn unig).

Er nad yw Fforwm Cydnerth Lleol Gwent yn gorff statudol, mae'n broses statudol.

Beth yw Cofrestr Risg Gymunedol?

Mae gan bob Fforwm Cydnerth Lleol ledled y DU ddyletswydd gyfreithiol i gynhyrchu a chyhoeddi Cofrestr Risg Gymunedol.

Mae Cofrestr Risg Gymunedol Fforwm Cydnerth Lleol Gwent yn deillio o broses a gynhaliwyd gan Weithgor Asesu Risg Fforwm Lleol Gwent Gydnerth er mwyn asesu tebygolrwydd ac effeithiau amrywiaeth o beryglon sy'n effeithio ar ardal Gwent.

Yn ogystal ag asesu peryglon, mae Fforwm Cydnerth Lleol Gwent hefyd yn asesu canlyniadau bygythiadau posibl a achosir gan ddigwyddiadau maleisus. Fodd bynnag, mae sensitifrwydd y wybodaeth sy'n ategu'r asesiadau hyn yn golygu na fydd manylion penodol ar gael yn gyhoeddus.

Sut caiff Cofrestr Risg Gymunedol ei chreu?

Wedi'i lywio gan yr asesiad risg Cenedlaethol, sef asesiad cyfrinachol Llywodraeth y DU o risgiau a allai ddigwydd yn y DU dros y pum mlynedd nesaf, mae'r Gweithgor Asesu Risg yn asesu'r risgiau cenedlaethol mewn cyd-destun lleol drwy edrych ar ba effaith y mae'r risg yn ei chael ar ffactorau fel y seilwaith lleol, yr economi, daearyddiaeth a demograffeg.

Defnyddir canlyniadau'r asesiadau risg hyn i lywio lefel ein parodrwydd ar gyfer ymateb i ganlyniadau'r peryglon a'r bygythiadau a nodwyd, a chynorthwyo'r Fforwm Cydnerth Lleol i flaenoriaethu ffyrdd o leihau'r risgiau lle y bo'n bosibl. Gall hyn gynnwys cynhyrchu cynlluniau a gweithdrefnau aml-asiantaethol effeithiol a hyfforddiant ac ymarfer ar y cyd rhwng asiantaethau.

Mae'r Gofrestr Risg Gymunedol hon yn ffurfio un agwedd yn unig ar waith y bartneriaeth wrth baratoi ar gyfer argyfyngau a rhannu gwybodaeth er mwyn cynyddu cadernid cyffredinol ardal Gwent.





Proffil ardal Gwent

Mae Fforwm Cydnerth Lleol Gwent yn cynnwys yr ardal a gynrychiolir gan hen sir Gwent ehangach. Mae'n cyfateb i'r un ardal ddaearyddol â Heddlu Gwent ac fe'i rhennir yn bum sir – Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

Mae'r ardal yn 600 milltir sgwâr gyda thua 50 milltir o arfordir ac mae ganddi boblogaeth o dros 580,000 sydd wedi tyfu 4% yn y deng mlynedd diwethaf.

Mae ardal Fforwm Cydnerth Lleol Gwent yn cynnwys trefi gwledig, cefn gwlad ac ardaloedd trefol gan gynnwys Dinas Casnewydd a threfi Glyn Ebwy, Trefynwy, Cwmbrân a Chaerffili.

Mae'r boblogaeth yn cael ei chynyddu gan fyfyrwyr Prifysgol a'r niferoedd mawr sy'n ymweld, neu sydd, oherwydd ei safle strategol rhwng Lloegr a De, Gorllewin a Chanolbarth Cymru, yn teithio drwy'r ardal bob blwyddyn.

Y Risgiau

Mae'r ystod o risgiau a aseswn yn amrywiol. Mae'r adrannau canlynol yn rhoi gwybodaeth am y prif risgiau hynny sydd â'r potensial mwyaf i gael effaith sylweddol ar drigolion a busnesau os byddant yn digwydd.

- ◆ Ffliw Pandemig
- ◆ Tywydd Garw
- ◆ Llifogydd
- ◆ Colli Seilwaith Hanfodol
- ◆ Damweiniau Diwydiannol
- ◆ Heintiau Anifeiliaid
- ◆ Digwyddiadau Trafnidiaeth
- ◆ Bygythiadau Maleisus

Ffliw Pandemig



Mae pandemig yn digwydd pan ddaw firws ffliw newydd i'r amlwg nad oes gan bobl imiwnedd iddo, os o gwbl.

Mae'n gallu ymledu o berson i berson, ac nid oes brechlyn ar ei gyfer. Mae gwahaniaethau pwysig rhwng hyn â ffliw tymhorol 'cyffredin' o'r math sy'n digwydd bob gaeaf.

Mae ffliw pandemig yn gallu heintio mwy o bobl dros ardal ddaearyddol fawr yn gyflym iawn ac achosi salwch mwy difrifol mewn cyfran fawr o'r boblogaeth. Yn wahanol i'r firws ffliw arferol, gall ffliw pandemig ddigwydd ar unrhyw adeg mewn un neu fwy o donnau, efallai wythnosau neu fisoedd ar wahân.

I gael mwy o wybodaeth:

'Ffliw Moch' oedd yr achos diweddaraf o'r ffliw pandemig yn 2009 ac yn ffodus achosodd ond salwch ysgafn yn y rhan fwyaf o'r bobl a oedd wedi ei ddal, ond dangosodd natur anrhagweladwy effeithiau pandemigau.

Gellir cael gwybodaeth am y pandemig hwn ar-lein drwy glacio ar y llun.



Canlyniadau posibl

- Caiff llawer o bobl eu heffeithio - mae hyd at 50% o boblogaeth y DU yn profi symptomau
- Nifer uwch nag arfer o farwolaethau
- Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu gor-ymestyn
- Mae pobl fregus yn wynebu mwy o risg
- Lefelau uchel o absenoldeb staff yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol
- Effeithir ar drefn dydd-i-ddydd arferol

Beth yr ydym yn ei wneud yng Ngwent?

- Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gynllunio ar gyfer rheoli'r galw cynyddol ar y GIG a gofal cymdeithasol
- Dosbarthu meddyginiaeth wrthfeirysol i'r rhai sydd mewn perygl
- Brechu gyda'r brechlyn sydd newydd ei ddatblygu unwaith y bydd ar gael
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fewn ein cymunedau
- Rheoli'r lefel uwch na'r arfer o farwolaethau
- Cynnal a datblygu ymhellach gynlluniau ffliw aml-asiantaethol y sefydliad

Beth allwch chi ei wneud?

- Cadw'n iach – bydd ffordd o fyw iach yn amddiffyniad mawr rhag y ffliw ac afiechydon eraill
- Nodwch rywun fel ffrind ffliw – rhywun a fyddai'n casglu eich meddyginiaeth, eich bwyd a chyflenwadau eraill sy'n eich galluogi i aros gartref pan fyddwch yn sâl
- Gwybod a deall trefniadau ysgol eich plant ar gyfer materion o'r fath
- Os yn gymwys – DYLECH GAEL EICH BRECHU RHAG Y FFLIW TYMHOROL
- Byddwch yn hylan – gorchuddiwch eich ceg a'ch trwyn pan fyddwch yn tisian a golchwch eich dwylo bob amser
- Chwiliwch am gyngor ac arweiniad oddi wrth y GIG a gwnewch yn siŵr eich bod yn eu dilyn

Tywydd Garw



Mae tywydd garw bob amser wedi bod yn bwnc o ddi-ddordeb ac yn rhan o'n sgysiau dyddiol.

Gall ddod mewn ffurfiau amrywiol o wyntoedd a stormydd; eira trwm a dwfn; tymheredd rhewllyd, rhew a thywydd haf poeth hyd yn oed, a gall bara am gyfnodau hir.

Mae profiad wedi dangos y gall tywydd garw ddigwydd ar unrhyw adeg, gan achosi amrywiaeth o broblemau ac nid yw'n cymryd llawer o amser iddo gael effaith sylweddol ar ein bywydau bob dydd.

I gael mwy o wybodaeth:

Mae Gwasanaeth Rhybudd Tywydd Eithafol Cenedlaethol y Swyddfa Dywydd yn rhybuddio rhag effeithiau tywydd garw. Mae rhybuddion tywydd y Swyddfa Dywydd yn cynnwys lefel o effaith y disgwylir i'r tywydd a ragwelir ei gynnig a pha mor debygol ydyw y bydd yr effeithiau hynny'n digwydd.

Yn ogystal â'r rhybuddion tywydd cyfredol, gellir dod o hyd i wybodaeth am y Gwasanaeth Rhybudd Tywydd Eithafol Cenedlaethol a'r canllawiau i'r mathau o effeithiau a allai ddigwydd mewn tywydd garw ar wefan y Swyddfa Dywydd drwy glicio ar y llun isod.



Canlyniadau posibl

- Amharu ar drafnidiaeth, cyfleustodau a chyfathrebu
- Mae bod yn agored i iechyd yn amlygu tymereddau isel
- Perygl i fywyd o wrthrychau sy'n agored i'r gwynt a methiannau strwythurol
- Adeiladau ysgol a chyhoeddus wedi cau
- Difrod i eiddo a seilwaith
- Gall busnesau a gwasanaethau cael eu gorfodi i gau neu atal eu gwaith
- Yr effaith ar ardaloedd gwledig, da byw a chymunedau ynysig
- Pwysau ychwanegol ar sefydliadau i gyflwyno swyddogaethau hanfodol i'r gymuned

Beth yr ydym yn ei wneud yng Ngwent?

- Cynnal cynlluniau amlasiantaethol a threfniadol unigol ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau tywydd difrifol
- Gweithio gyda'n gilydd i barhau â gwasanaethau hanfodol a lleihau aflonyddwch
- Monitro rhagolygon y tywydd drwy'r flwyddyn a rhoi cyngor ac arweiniad
- Gweithredu cynllunio dros y gaeaf e.e. graeanu, clirio eira ac ati
- Targedu cymorth at yr aelodau o'n cymunedau sydd fwyaf agored i niwed

Beth allwch chi ei wneud?

- Gwirio a gwrando ar ragolygon y tywydd ac ystyriwch unrhyw rybuddion
- Peidiwch â theithio oni bai fod eich taith yn gwbl angenrheidiol. Os oes angen i chi deithio, cynlluniwch ymlaen llaw a chariwch fwyd/dillad/blanced argyfwng ac ati
- Ystyriwch a chynlluniwch sut y byddech yn rheoli heb gyfleustodau hanfodol e.e. trydan neu ddŵr
- Holwch am berthnasau a chyfeillion oedrannus neu sy'n agored i niwed
- Cymerwch gamau i gadw'n gynnes, neu hydradu ar dymheredd uchel
- Dilynwch y cyngor a roddir gan asiantaethau
- Sicrhewch fod gennych yswiriant digonol

Llifogydd



Mae llifogydd yn un o'r risgiau uchaf a mwyaf rheolaidd sy'n digwydd yn ardal Gwent, ac mae miloedd o gartrefi a busnesau ar draws y rhanbarth y gellid effeithio arnynt. Gall llifogydd darddu o wahanol ffynonellau, gan gynnwys dŵr afonydd, yr arfordir ac arwyneb.

Dros y blynyddoedd nesaf, mae'n debyg y bydd tymheredd y môr yn codi ac mae cynnydd yn amllder a difrifoldeb digwyddiadau tywydd eithafol yn debygol o gynyddu'r perygl o lifogydd yn y DU.

I gael mwy o wybodaeth:

Mae amrywiaeth o offer a gwybodaeth ar gael yn rhad ac am ddim i'ch helpu i gadw gwybodaeth a diogelu eich hun, eich teulu, eich eiddo a'ch busnesau. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai a ddarperir gan **Cyfoeth Naturiol Cymru** ac mae ei wefan yn cynnwys cyngor cyffredinol ar lifogydd; pa rybuddion llifogydd sydd mewn grym a sut i gofrestru i gael rhybuddion am lifogydd; a'r **Fforwm Llifogydd Cenedlaethol** sy'n elusen sy'n cynnig cymorth, yn cefnogi ac yn cynrychioli pobl sydd mewn perygl o ddiodef llifogydd. Mae'r ddwy wefan ar gael drwy glicio ar y lluniau perthnasol isod.



Canlyniadau posibl

- Llifogydd yn effeithio ar gartrefi a busnesau
- Perygl i fywyd, pobl ac anifeiliaid
- Difrod i eiddo, busnesau, tir amaethyddol, ffyrdd, gwasanaethau a seilwaith
- Ymgiliad a/neu ynysu preswylwyr
- Tarfu ar gyfleustodau a chlodiant
- Llygredd a halogiad yr amgylchedd lleol
- Materion adfer ac achub hir-dymor i'r rhai yr effeithiwyd arnynt

Beth yr ydym yn ei wneud yng Ngwent?

- Cynnal, profi ac ymarfer cynlluniau sefydliadol aml-asiantaethol a threfniadaeth unigol ar gyfer ymateb i achosion o lifogydd
- Monitro llifogydd, rhagolygon, cyhoeddi rhybuddion llifogydd a rhybuddio'r cyhoedd cyn gynted â phosibl pan fo perygl o lifogydd
- Nodi pa ardaloedd y gallai llifogydd effeithio arnynt a phwy sydd mewn perygl
- Cynllunio strategol i ddiogelu'r ardaloedd sydd yn y perygl mwyaf a lleihau'r tarfu
- Archwilio a chynnal a chadw cwlferi a gyliau'n rheolaidd
- Rhoi cyngor ac arweiniad i gartrefi a busnesau am lifogydd

Beth allwch chi ei wneud?

- Darganfyddwch a ydych yn byw neu'n gweithio mewn ardal lle y ceir perygl o lifogydd ac yn llofnodi i dderbyn rhybuddion am lifogydd
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ragolygon y tywydd a rhybuddion tywydd
- Meddylwch sut y byddech yn diogelu eich eiddo yn ystod llifogydd ac a oes gennych yswiriant digonol
- Peidiwch â mynd i mewn i ddŵr llifogydd oni bai bod y gwasanaethau brys yn eich cyfarwyddo i wneud hynny. Gall dŵr llifogydd fod yn eithriadol o beryglus a gall guddio peryglon
- Paratoi cynllun argyfwng cartref neu gynllun llifogydd personol (gweler adran 'Paroddrwydd' y llyfryn hwn)
- A oes cymdogion, perthnasau sy'n agored i niwed neu ffrindiau y gall fod angen cymorth arnynt, holwch a oes grŵp llifogydd cymunedol yn eich ardal

Colli Seilwaith Hanfodol



Mae seilwaith hollbwysig yn disgrifio'r holl wasanaethau gwahanol rydym yn dibynnu arnynt fel rhan o'n cymdeithas fodern ac mae'n hanfodol i'r ffordd rydym yn cynnal ein bywydau bob dydd.

Mae seilwaith allweddol y DU yn cynnwys gwasanaethau fel trydan, dŵr, nwy, olew, tanwydd, trafniadaeth, cyfathrebu, bwyd, iechyd a gwasanaethau ariannol. Yn ardal Gwent rydym yn dibynnu ar y gwasanaethau hanfodol hyn a gall hyd yn oed colledion lleol gael effaith sylweddol ar ein trigolion.

I gael mwy o wybodaeth:

Mae pob un o'r cyfleustodau allweddol sy'n gwasanaethu ardal Gwent yn cynnig cymorth a chynghor ar sut i roi gwybod am amhariad ar gyflenwadau yn ogystal â beth i'w wneud os torrir ar draws cyflenwadau a rhifau cyswllt mewn argyfwng. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon ar lein drwy glicio ar y lluniau isod.



Canlyniadau posibl

- Tarfu ar wasanaethau hanfodol, busnesau a bywyd arferol y cartref
- Pobl yn profi glanweithdra gwael a diffyg dŵr yfed
- Cartrefi heb wres a gallu cyfyngedig i wresogi bwyd a dŵr
- Gallu cyfyngedig i gadw bwyd yn oer neu wedi rhewi
- Mwy o berygl i bobl agored i niwed
- Dim gallu i gael tanwydd o orsafoedd petrol
- Pobl yn methu cael arian o beiriannau arian parod neu brynu gan ddefnyddio cardiau
- Telathrebu cyfyngedig (gan gynnwys ffonau symudol)
- Aflonyddwch sifil

Beth yr ydym yn ei wneud yng Ngwent?

- Gweithio gyda cwmnïau cyfleustodau i reoli ymyrraeth cyflenwi lle bo hynny'n bosibl
- Datblygu cynlluniau aml-asiantaethol i reoli a lliniaru ymyriadau tymor hwy i wasanaethau, gan gynnwys trefniadau parhad busnes
- Nodi pobl sy'n agored i niwed y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt os bydd y cyfleustodau'n methu

Beth allwch chi ei wneud?

- Gwybod ble mae'r pwyntiau terfyn ar gyfer eich cyfleustodau a sut i'w diffodd
- Cadwch nodyn o fanylion cyswllt eich cwmnïau cyfleustodau ac os cânt eu heffeithio, rhowch wybod iddynt am unrhyw faterion
- Meddylwch am sut y byddech yn ymdopi heb gyfleustodau allweddol, rhowch becyn argyfwng at ei gilydd gydag eitemau megis tortsh weindio a radio, bwyd tun a dŵr yfed (gweler adran 'Parodrwydd' y llyfryn hwn)
- Gall cyfleustodau methu heb rybudd Os yw hyn yn wir ystyriwch sut y gallwch fod yn barod e.e. llenwi'r baddon gyda dŵr yfed
- Holwch am gymdogion a pherthnasau a allai fod yn agored i niwed i weld a oes unrhyw beth y mae angen arnynt

Damweiniau Diwydiannol



Mae sawl diwydiant yn ardal Gwent sy'n storio neu'n defnyddio sylweddau a allai fod yn beryglus a allai effeithio ar bobl a'r amgylchedd pe bai damwain yn digwydd. Fodd bynnag, nid yw'r potensial ar gyfer effaith fawr bob amser yn dod o ddamweiniau mewn safleoedd diwydiannol mawr.

Er enghraifft, os yw tân yn cynnwys silindrau asetylen fel sydd mewn llawer o garejys, gweithdai ac ati, efallai y bydd gweithdrefnau ymateb yn gofyn bod parth perygl yn cael ei osod a gall unrhyw un sy'n byw yn y parth hwn gael eu hymgilio nes ei bod yn ddiogel iddynt ddychwelyd.

I gael mwy o wybodaeth:

Gallai busnesau sy'n gwneud, yn storio neu'n defnyddio sylweddau peryglus a thrwy eu gweithrediadau niweidio iechyd pobl, a chaiff yr amgylchedd ei reoleiddio gan amrywiol reoliadau a chyfarwyddbau.

Mae'r rhain yn cynnwys Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gael trwyddedau ar gyfer rhai cyfleusterau, cofrestru eraill fel rhai sydd wedi'u heithrio a darparu ar gyfer goruchwyliaeth barhaus gan reoleiddwyr. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys unrhyw beth o weithfeydd trin carthion i ierdydd metel sgrap.

Rheoleiddir rhai safleoedd diwydiannol yng Ngwent gan Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (neu COMAH) a chânt eu dynodi'n sefydliadau haen uchaf. O dan y Rheoliadau, rhaid i'r safleoedd hyn lunio cynllun argyfwng sy'n cynnwys gwybodaeth am sut y byddant yn amddiffyn pobl a'r amgylchedd ac yn dweud wrth bobl os effeithiwyd arnynt.

Canlyniadau posibl

- Perygl i fywyd
- Problemau iechyd cyhoeddus
- Difrod i eiddo a'r ardal leol
- Llygru'r amgylchedd lleol, gan gynnwys cyrsiau dŵr a bywyd gwylt
- Ymgilio'r ardal yr effeithiwyd arni o bosibl
- Tarfu ar gyfleustodau a chyflenwadau lleol a chenedlaethol
- Colledion economaidd i'r diwydiant dan sylw a busnesau lleol
- Effaith andwyol bosibl ar ffermio a chynnyrch amaethyddol lleol

Beth yr ydym yn ei wneud yng Ngwent?

- Gweithio'n uniongyrchol gyda gweithredwyr safleoedd sy'n rheoli safleoedd COMAH ac yn gweithio mewn partneriaeth i gynhyrchu cynlluniau argyfwng COMAH oddi ar y safle
- Datblygu ac ymarfer cynlluniau aml-asiantaeth er mwyn sicrhau ymateb effeithiol a rheoli canlyniadau damweiniau diwydiannol
- Cynnal archwiliadau diogelwch tân a gweithio gyda safleoedd diwydiannol i leihau'r risg y bydd damwain yn digwydd
- Adnabod ffyrdd a dulliau o gyfathrebu â'r cyhoedd a rhoi cyngor priodol

Beth allwch chi ei wneud?

- Byddwch yn ymwybodol os ydych yn byw ger safle peryglus. Gwiriwch i weld a ydych yn byw ger safle rheoleiddiedig
- Os byddwch yn clywed rhybudd o ddamwain, ewch i mewn, caewch eich drysau a'ch ffenestri i gyd a diwnio i mewn i orsafoedd radio lleol neu dilynwch y cyfryngau cymdeithasol am gyngor
- Paratowch ar gyfer y posibilrwydd o wacáu'r adeilad drwy lunio pecyn cydio mewn argyfwng o bethau y gallai fod arnoch ei angen os gofynnir i chi adael eich cartref mewn argyfwng (gweler adran ' parodrwydd ' y llyfryn hwn)
- Os caiff ei wagio, gwrandewch a dilynwch gyfarwyddiadau'r gwasanaethau brys

Heintiau Anifeiliaid



Y mathau o heintiau anifeiliaid sy'n peri'r risg mwyaf yw'r rhai sy'n heintus iawn ac sy'n achosi cyfraddau marwolaethau uchel ymysg da byw. Yn ogystal, mae yna heintiau anifeiliaid sydd â'r potensial i ymledu o anifeiliaid i fodau dynol, gan achosi salwch neu farwolaethau.

Mae profiad yn dangos y gall heintiau anifeiliaid gael canlyniadau difrifol i'r diwydiant ffermio yn ardal Gwent. Gall cyfyngiadau ar symud a theithio i leihau lledaeniad yr haint niweidio'r diwydiant gwledig a'r economi ehangach hefyd.

I gael mwy o wybodaeth:

Yr asiantaeth arweiniol ar gyfer iechyd a heintiau anifeiliaid yw'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn asiantaeth weithredol a noddir gan DEFRA, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ynghyd â Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu gwybodaeth a chanllawiau defnyddiol sydd i'w gweld ar eu gwefannau eu hunain drwy glicio ar y logos isod.



Canlyniadau posibl

- Y risg i iechyd anifeiliaid
- Peryglon iechyd i bobl, gweithwyr penodol yn y diwydiant da byw
- Difrod i'r economi amaethyddol leol
- Difa/gwaredu carcasau anifeiliaid ar raddfa fawr
- Colli bywoliaeth i ffermwyr a gweithwyr fferm
- Effaith ar dwristiaeth a diwydiannau gwasanaeth eraill
- Ffermwyr yn dioddef effeithiau iechyd seicolegol hirdymor
- Cynnydd posibl mewn costau bwyd i ddefnyddwyr

Beth yr ydym yn ei wneud yng Ngwent?

- Mae awdurdodau lleol a gwasanaethau milfeddygol yn sgrinio'n barhaus ac yn monitro iechyd anifeiliaid a symud da byw
- Datblygu gweithdrefnau ar gyfer darparu cynlluniau heintiau anifeiliaid egsotig Llywodraeth Cymru a fframweithiau iechyd anifeiliaid yn lleol
- Codi ymwybyddiaeth o heintiau ymysg ffermwyr a gweithwyr fferm
- Derbyn a monitro rhybuddion clefydau anifeiliaid yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Beth allwch chi ei wneud?

- Cofrestrwch unrhyw anifeiliaid rydych yn berchen arnynt gyda Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Mae pob perchennog yn gyfrifol am iechyd a lles da byw yn eu gofal ac mae angen iddynt ddeall a darparu ar gyfer anghenion corfforol a lles
- Cynnal arferion da o ran atal a rheoli clefydau
- Cyn gynted â phosibl, dylid nodi unrhyw amheuaeth o glefyd anifeiliaid gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. Trafodwch unrhyw bryderon gyda'ch milfeddyg
- Brechwch eich da byw lle bo'n bosibl
- Os caiff achos ei ddatgan, dilynwch unrhyw ganllawiau gan y Llywodraeth i ddiogelu'ch anifeiliaid ac i gyfyngu ar ledaeniad y clefyd.

Digwyddiadau Trafnidiaeth




Mae'r rhan fwyaf ohonom yn dibynnu ar ryw fath o drafnidiaeth, boed yn mynd i'r gwaith ac oddi yno, cyflawni teithiau pwysig neu i gael gwasanaethau hanfodol.

Felly, pan fydd tarfu ar drafnidiaeth yn digwydd mae'r canlyniadau'n bellgyrhaeddol a gall hyd yn oed beryglu bywyd.

Gall unrhyw darfu fod yn ganlyniad i ddamweiniau, tywydd garw megis eira neu lifogydd, difrod strwythurol i'r seilwaith trafniadaeth megis pontydd a thwneli neu weithredu diwydiannol.

I gael mwy o wybodaeth:

Gallwch weld y wybodaeth ddiweddaraf am draffig a thrafnidiaeth gyhoeddus drwy glicio ar y lluniau isod.



Yn ogystal â'r uchod, gellir dod o hyd i gyngor teithio pellach a chamau ymarferol y gallwch eu cymryd ar wefan y Swyddfa Dywydd drwy glicio ar ei logo.



Canlyniadau posibl

- Gohirio neu ddiddymu gwasanaethau cludiant
- Pobl yn cael eu hynysu, mewn cerbydau neu mewn canolfannau cludiant
- Perygl i fywyd
- Sgil-ffeithiau difrifol ar lwybrau dargyfeiriol a rhwydweithiau trafniadaeth lleol
- Anallu i gyrraedd y gwaith, yr ysgol neu benodiadau pwysig
- Busnesau/gwasanaethau yn dioddef effaith andwyol o ganlyniad i dderbyniadau gohiriedig neu wedi methu
- Effeithiau amgylcheddol os caiff deunyddiau peryglus eu gollwng i'r amgylchedd lleol

Beth yr ydym yn ei wneud yng Ngwent?

- Datblygu ac ymarfer cynlluniau aml-asiantaeth i reoli canlyniadau digwyddiadau a tharfu o ran trafniadaeth
- Mae pob asiantaeth briffyrdd berthnasol yn cydweithio i gadw pob ffordd fawr ar agor ac yn hygyrch yn ystod cyfnodau o aflonyddwch
- Gweithio gyda chwmnïau trafniadaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ofalu am bobl yr effeithiwyd arnynt gan ddigwyddiadau trafniadaeth
- Rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ystod cyfnodau o darfu
- Monitro rhagolygon y tywydd i sicrhau ein bod yn barod i ddelio ag unrhyw darfu posibl sy'n gysylltiedig â'r tywydd

Beth allwch chi ei wneud?

- Cyn dechrau ar eich taith, edrychwch i weld a oes unrhyw darfu a gwnewch drefniadau eraill os oes angen. Osgowch deithiau diangen mewn tywydd garw
- Cadwch becyn argyfwng yn eich car neu eitemau sylfaenol pan fyddwch yn teithio. Efallai na fyddwch yn ymwneud yn uniongyrchol â'r digwyddiad ond gallai'r aflonyddwch bara am oriau
- Wrth yrru, cadwch at reolau'r ffordd, cadwch at derfynau cyflymder a gyrrwch yn ddiogel. Ymgylfarwyddwch â threfniadau argyfwng trafniadaeth gyhoeddus
- Sicrhewch fod eich cerbyd yn cael ei gadw mewn cyflwr da a diogel

Bygythiadau Maleisus



Er mai anaml iawn y bydd ymosodiadau maleisus yn digwydd, mae ymdrechion bwriadol i darfu ar ein ffordd o fyw yn y newyddion yn rheolaidd.

Bygythiadau maleisus yw'r grwpiau hynny o risgiau sy'n cynnwys camau megis terfysgaeth a throseddau cyfundrefnol ac a gesglir mewn themâu megis

ymosodiadau ar leoedd gorlawn; ymosodiadau ar drafndiaeth a seilwaith hanfodol; a seiber-ymosodiadau.

I gael mwy o wybodaeth: (cliciwch ar y lluniau)

Mae Cofrestr Risg Genedlaethol Llywodraeth y DU yn cynnwys dolenni i gyngor a chanllawiau pellach ar y gwahanol grwpiau a nodwyd a bygythiadau maleisus.



Mae gwefan y Swyddfa Ddiogelwch Gwrthderfysgaeth Genedlaethol yn darparu gwybodaeth am yr ymgyrchoedd cyhoeddus diweddaraf o ran strategaeth



gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU.

Er mwyn lliniaru yn erbyn seiber-ymosodiadau mae'r safleoedd gwe 'Are you Cyber Aware?' a 'Cyber Essential' y Ganolfan Genedlaethol Seiber Ddiogelwch yn rhoi cyngor i aelodau o'r cyhoedd a busnesau sydd wedi'u paratoi'n llawer gwell yn erbyn y mwyafrif helaeth o seiber-ymosodiadau.



Canlyniadau posibl

- Marwolaethau ac anafusion corfforol/seicolegol
- Difrod i eiddo a seilwaith
- Tarfu ar seilwaith a gwasanaethau hanfodol a phwysau ychwanegol ar sefydliadau sy'n ymateb
- Gwagio'r adeilad a lletya'r rhai yn yr ardal dan sylw
- Tarfu ar yr economi genedlaethol a lleol
- Colli gwybodaeth bersonol neu gorfforaethol
- Materion adfer ac achub hir-dymor i'r rhai yr effeithiwyd arnynt

Beth yr ydym yn ei wneud yng Ngwent?

- Aseu'r risg a chanlyniadau lleol bygythiadau maleisus yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU a Lywodraeth Cymru
- Datblygu ac ymarfer cynlluniau aml-asiantaethol i sicrhau ymateb effeithiol i a rheoli canlyniadau ymosodiadau maleisus
- Cyflwyno strategaeth gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU'n lleol (CONTEST)
- Cyfleu cyngor i'r cyhoedd ac i fusnesau, a chefnogi ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y Llywodraeth
- Annog pob sefydliad Fforwm Cydnerth Lleol i adolygu a dangos, lle y bo'n bosibl, bod ganddynt strategaethau cyfrifol ar gyfer seibr-gydnerth.

Beth allwch chi ei wneud?

- Mae sefydliadau sy'n ymateb yn gweithio'n galed iawn i'n cadw ni'n ddiogel rhag bygythiadau maleisus. Rhan o'r gwaith hwn yw cynhyrchu gwybodaeth hanfodol sy'n amlinellu'r rôl y gall unigolion ei chwarae wrth ymateb i ymosodiad neu fygythiad maleisus. Er bod y siawns o gael eich dal mewn digwyddiad terfysgol yn parhau'n brin, mae'n bwysig bod yn barod a gwybod sut i amddiffyn eich hun. Gwnewch eich hun yn gyfarwydd â'r cyngor a'r arweiniad sydd ar gael (**gweler y dolenni gyferbyn**) a chadwch lygaid allan am y wybodaeth ddiweddaraf am ymgyrchoedd cyhoeddus cyfredol.
- Gan fod aelodau o'r cyhoedd a busnesau'n cael eu targedu'n aml gan amrywiaeth o seiber-ymosodiadau, fel e-byst sgâm a dwyn hunaniaeth, mae'n bwysig eich bod yn gwybod pa gamau y gallwch eu cymryd i ddiogelu eich hun (**gweler y dolenni gyferbyn**).

Parodrwydd

Yn ystod argyfwng, mae'n bwysig bod yn barod, waeth ble rydych chi. Mae llawer y gallwch wneud i wneud eich hun, eich teulu a'ch busnes yn fwy parod ar gyfer argyfwng digwyddiadau sy'n tarfu.



YN EICH CARTREF

Gall cymryd rhai camau syml leihau effaith argyfwng ar eich teulu a'ch cartref. Nid oes angen gwybodaeth arbenigol - dim ond ychydig eiliadau o'ch amser chi a'ch teulu. Cam cyntaf da yw rhoi ar waith **'Cynllun Argyfwng y Cartref'**.

Er efallai na fydd angen i chi ei

ddefnyddio byth, mae'n ffordd ardderchog o baratoi eich hun os bydd argyfwng yn digwydd. Wrth roi eich cynllun at ei gilydd, cofiwch gynnwys eich teulu cyfan a chael trafodaeth am yr hyn y dylid ei gynnwys. Bydd hyn hefyd yn eu gwneud yn ymwybodol bod cynllun ar gael a'r hyn sydd angen ei wneud.

Nid oes ffordd gywir neu anghywir o baratoi 'Cynllun Argyfwng y Cartref', ond dyma ychydig o bwyntiau i'w hystyried:

- ◆ Meddylwch am y mathau o argyfyngau a allai ddigwydd – eira, llifogydd, colli pŵer difrifol.
- ◆ Meddylwch sut y gallai argyfwng newid arferion eich teulu – tywydd garw sy'n effeithio ar rediad dyddiol yr ysgol.
- ◆ Pe bai'n rhaid i chi adael eich cartref, pa drefniadau fyddai eu hangen arnoch i ofalu am eich anifeiliaid anwes?
- ◆ Cytunwch ar nifer o fannau cyfarfod amgen diogel i'ch teulu rhag ofn na allwch fynd adref.
- ◆ Trefnwch sut bydd eich teulu yn cadw mewn cysylltiad os bydd argyfwng.

- ◆ Ymgylfarwyddwch â'ch teulu ar sut i ddiffodd y cyflenwadau nwy, trydan a dŵr i'ch cartref.
- ◆ Pe bai'n rhaid i chi aros yn eich cartref am gyfnod o amser neu os gwnaethoch chi golli pŵer, dŵr ac ati, pa gyflenwadau byddai eu hangen arnoch?
- ◆ Gwnewch yn siŵr bod gennych yswiriant cartref cyfredol ac addas.
- ◆ Cadwch gopi wrth gefn o ddogfennau pwysig allweddol megis dogfennau yswiriant; tystysgrifau geni ac ati. Sut fydddech chi'n cael gafael arnynt?
- ◆ Oes aelodau o'ch teulu sy'n agored i niwed – a fydd angen help ychwanegol arnyd nhw mewn argyfwng?
- ◆ Meddylwch am eich cymdigion – ydyn nhw'n ddiameddiffyn neu'n anabl? Allech chi eu helpu nhw?

Wrth i amser fynd heibio, mae'n bosibl y byddwch yn gwneud newidiadau i'ch cartref neu fod amgylchiadau eich teulu yn newid. Mae'n gwneud synnwyr i adolygu eich Cynllun Argyfwng y Cartref yn rheolaidd a'i ddiweddarau lle bo angen.

'Pecyn Argyfwng' y Cartref

Efallai y bydd rhai argyfyngau mawr yn gofyn i chi aros yn eich cartref am gyfnod o amser a gallech golli eich cyflenwad pŵer neu ddŵr. Wrth baratoi 'Pecyn Argyfwng' cartref, gallwch chi a'ch teulu fod yn fwy parod i ddelio â'r rhan fwyaf o achosion brys.

Wrth baratoi eich 'Pecyn Argyfwng' dylai'r eitemau canlynol fod ar eich rhestr:

- ✓ Tortsh â batri neu'n ddelfrydol un weindio, a radio
- ✓ Canhwyllau a matsys, cyflenwad o fatris sbâr
- ✓ Dŵr potel ffres, bwyd tun/hir oes (peidiwch ag anghofio'r agorydd tun)
- ✓ Dillad cynnes
- ✓ Blancedi (mae bagiau cysgu yn ddewis da)
- ✓ Meddyginiaeth bersonol a theuluol; pecyn cymorth cyntaf
- ✓ Rhestr o rifau ffôn pwysig, megis; teulu a ffrindiau; ysgol y plant; meddyg teulu; milfeddygon; cyflenwr cyfleustodau; yswirwyr



Gadael eich cartref mewn argyfwng

Yn anffodus, bydd rhai argyfyngau'n gofyn i'r cyhoedd, am resymau iechyd a diogelwch, gael eu gwacáu tra bydd y gwasanaethau brys yn ymdrin â'r digwyddiad.

Gobeithio na fydd hyn byth yn digwydd i chi, ond os ydyw, mae'n bwysig eich bod yn

gwrando ar y cyngor oddi wrth y gwasanaethau brys a'ch bod yn gadael mor gyflym ac mor bwyllog â phosibl.

Hefyd os oes gennych amser:

- ✓ Diffoddwch gyflenwadau trydan, nwy a dŵr, tynnwch allan pob plwg a chlowch bob drws a ffenestr
- ✓ Ewch â'ch 'Pecyn Argyfwng' a hefyd:
 - allweddi (eich tŷ a'r car)
 - arian a chardiau credyd
 - ffôn symudol a'r pwerydd
- ✓ Os ydych yn gadael mewn car, gwiriwch ac ystyriwch amodau gyrru cyn dechrau gan y gallai fod yn rhy beryglus (e.e. llifddwr, eira trwm). Os yw'n ddiogel i adael mewn car cymerwch ddŵr potel a blancedi.
- ✓ Cymerwch eich anifeiliaid anwes (gyda chlodwyr neu dennyn addas)
- ✓ Gwrandewch ar radio lleol am gyngor a chyfarwyddiadau mewn argyfwng
- ✓ Hysbyswch y gwasanaethau brys ar y safle os ydych wedi mynd a sut y gallwch gysylltu â chi.
- ✓ Rhowch wybod i berthnasau nad yw'r argyfwng yn effeithio arnynt o'ch lleoliad, er mwyn osgoi unrhyw bryder diangen.

Dychwelyd adref ar ôl argyfwng

Gwrandewch ar gyngor gan y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol a chwmnïau cyfleustodau am unrhyw gamau penodol y mae'n rhaid i chi eu dilyn pan fydd yn ddiogel i chi ddychwelyd adref.

YN Y GYMUNED

Mae'n bosib y gall, a bydd, argyfyngau ar raddfa eang yn digwydd. Dros y blynnyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld digwyddiadau megis eira trwm, llifogydd, methiannau cyfleustodau ac ymosodiadau terfysgol.



Roedd y gwersi a ddysgwyd yn sgil y rhain ac argyfyngau eraill yn dangos bod y cymunedau hynny a oedd yn barod am ddigwyddiadau brys mewn sefyllfa well i ddelio â'r effeithiau.

Gall mesurau cydnerthu cymunedol fod cyn lleied â dynodi pwynt cyswllt o fewn y gymuned i dderbyn rhybuddion a negeseuon gan y gwasanaethau brys, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol, i gydweithio i ddatblygu 'Cynllun Cydnerth Lleol'.

Pam cael 'Cynllun Cydnerth Lleol' mewn lle?

Diben cydnerthedd cymunedol yw annog pobl i gynllunio a bod yn barod i roi ymateb hunangymorth ar waith mewn cymuned sy'n cael ei heffeithio gan argyfwng. Mae profiad wedi dangos y gall yr ymateb arferol a ddarperir gan y gwasanaethau brys a'r awdurdodau lleol gael ei oedi weithiau oherwydd maint a/neu natur yr argyfwng. Ar yr adegau hyn bydd unrhyw beth y gall y gymuned leol ei wneud i gefnogi ei gilydd yn helpu.

O ble i gael rhagor o wybodaeth?

Cysylltwch â'ch cyngor cymunedol, yr asiantaeth wirfoddol leol a'r adran cynllunio brys/argyfyngau sifil posibl yr awdurdod lleol i gael rhagor o wybodaeth ac i gymryd rhan. Gallwch hefyd holi am y cynlluniau cymydog da sy'n gweithredu yn eich ardal a/neu sut y gallwch wirfoddoli i helpu'r cymunedau.

EICH BUSNES

Os ydych yn berchen ar fusnes neu sefydliad neu'n gyfrifol amdano, a ydych wedi ystyried effeithiau argyfyngau allanol?



Os felly, a oes gennych gynllun parhad busnes? Mae cynllunio parhad busnes yr un mor bwysig i gwmnïau bach ag ydyw i gorfforaethau mawr. Gall cael cynllun parhad busnes wneud y gwahaniaeth rhwng cadw a cholli eich busnes pe digwyddai trychineb.

Beth yw parhad busnes?

Mae parhad busnes yn golygu sicrhau bod eich busnes neu'ch sefydliad yn barod mewn argyfwng.

- ◆ Sut fydddech chi'n parhau i weithredu?
- ◆ Ydych chi'n darparu gwasanaeth hanfodol i'ch cwsmeriaid?
- ◆ A fyddai'n sefyllfa 'busnes yn ôl yr arfer'?

Bydd cael cynllun dibynadwy yn helpu i sicrhau bod eich busnes neu'ch sefydliad yn dioddef yr aflonyddwch lleiaf posibl ac yn parhau i weithredu yn y pen draw.

Pam parhad busnes?

Heb gynllunio parhad busnes effeithiol gallai trychineb naturiol neu un a wnaed gan ddyn arwain at:-

- ◆ Methiant llwyr eich busnes
- ◆ Colli incwm
- ◆ Colli enw da a/neu golli cwsmeriaid
- ◆ Cosbau ariannol, cyfreithiol a rheoliadol
- ◆ Materion adnoddau dynol
- ◆ Effaith ar bremiymau yswiriant

Rhai risgiau busnes y dylech gynllunio ar eu cyfer:

Os na allwch ddarparu gwasanaethau o dan gontract, a ydych wedi ystyried pa fath o gosbau y gellid eu gosod?

A allai eich gwasanaethau hanfodol barhau yn ystod y canlynol:-

- ◆ Colli pŵer am 24 awr neu hyd yn oed dros gyfnod maith?
- ◆ Sut y byddai eich busnes yn gweithredu heb gyfrifiaduron neu delathrebu am ddiwrnod, wythnos neu fis
- ◆ Pa rai o'ch gwasanaethau hanfodol a fyddai'n cael eu peryglu pe bai eich adeilad yn cael ei wagio am wythnos a bod yr holl fynediad yn cael ei wrthod? Neu beth am fis?
- ◆ Faint o staff y byddai eu hangen i barhau i ymdrin â thasgau allweddol a sut y byddech yn eu lletya?
- ◆ A oes gennych adeilad arall i weithio'n effeithiol ynddo? A yw hyn yn ddigonol? A all staff weithio o gartref?
- ◆ Beth fyddai'n digwydd pe bai chwarter eich staff yn absennol oherwydd pandemig o fflw?
- ◆ Am ba hyd y gallwch ymdopi heb feddalwedd neu ddeunydd ysgrifennu arbennig a pha mor hir y byddai'n ei gymryd i ailgyflenwi stociau?

Dylai eich cynllun ateb yr holl gwestiynau uchod, ac eraill wedi'u teilwra ar gyfer eich busnes.

Beth yw rôl Fforwm Cydnerth Lleol Gwent?

Un o'r dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yw darparu cyngor a chymorth i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol ynghylch rheoli parhad busnes. Fodd bynnag, dim ond i awdurdodau lleol y mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol. Felly, er na all yr awdurdod lleol baratoi eich cynlluniau ar eich cyfer (er eich bod yn gwybod beth yw eich busnes a'ch prosesau critigol orau), gall gynnig cyngor cyffredinol a chynorthwyo drwy roi manylion am wefannau defnyddiol a gwaith darllen pellach.

CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Isod ceir rhestr o rifau cyswllt ar gyfer yr asiantaethau hynny sy'n ffurfio Fforwm Lleol Gwent Gydnerth a rhai gwefannau defnyddiol i'ch helpu i gael rhagor o wybodaeth.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

01495 311556

www.blaenau-gwent.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

01443 815588 (Oriau Swyddfa)

01443 875500 (Tu allan i oriau swyddfa)

www.caerffili.gov.uk

Cyngor Sir Fynwy

01633 644644 (Oriau Swyddfa)

0300 123 1055 (Tu allan i oriau swyddfa - argyfyngau yn unig)

www.monmouthshire.gov.uk

Cyngor Dinas Casnewydd

01633 656656

www.newport.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

01495 762200

www.torfaen.gov.uk

Heddlu Trafnidiaeth Prydain

08000 405040 (nad yw'n argyfwng)

http://www.btp.police.uk/btp_wales_home.aspx

Heddlu Gwent

Os nad oes angen cymorth brys arnoch, neu os mai dim ond ymholiad cyffredinol sydd gennych, dylech ddeialu 101 (y rhif nad yw'n argyfwng).

Os oes angen cymorth brys arnoch dylech bob amser ddeialu 999

www.gwent.police.uk

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Os nad oes angen cymorth brys arnoch, neu os mai dim ond ymholiad cyffredinol sydd gennych, dylech ddeialu 101 (y rhif nad yw'n argyfwng).

Os oes angen cymorth brys arnoch dylech bob amser ddeialu 999

www.southwales-fire.gov.uk

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

01633 626262

Os oes angen cyngor iechyd arnoch, ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47 neu'r GIG ar 111.

www.ambulance.wales.nhs.uk/Default.aspx?pageid=&lan=cy

Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau Ei Mawrhydi

Ar gyfer ymholiadau nad ydynt yn rhai brys yn ymwneud â materion diogelwch morol yn ardal De Cymru, ffoniwch Gwylwyr y Glannau EM ar 01646 690909.

Os oes angen cymorth brys arnoch, dylech bob amser ddeialu 999 a nodi 'Gwylwyr y Glannau'.

Dylid gwneud pob ymholiad arall i'r swyddfa berthnasol, a gellir dod o hyd i fanylion am y rhain ar y wefan.

www.gov.uk/government/organisations/maritime-and-coastguard-agency

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

01633 234234

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/hafan>

Galw Iechyd Cymru

0845 46 47

www.nhsdirect.wales.nhs.uk/default.aspx?locale=cy

Iechyd Cyhoeddus Cymru

029 2022 7744

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/hafan>

Cyfoeth Naturiol Cymru

03000 655000

www.naturalresourceswales.gov.uk/?lang=cy

Dŵr Cymru Welsh Water

0800 052 0130

https://www.dwrcymru.com/?sc_lang=cy-GB

Wales and West Utilities (Nwy)

Gollyngiadau Nwy 0800 111 999

Ymholiadau Cyffredinol 0800 912 29 99

<https://www.wwutilities.co.uk/>

Western Power Distribution (Trydan)

Mae ond rhaid i gwsmeriaid ddeialu 105 er mwyn rhoi gwybod am doriad pŵer.

www.westernpower.co.uk

GWEFANNAU DEFNYDDIOL ERAILL

Fforwm Lleol Gwent Gydnerth

<http://www.gwentprepared.org.uk/index.php?id=80&L=1>

Y Swyddfa Dywydd

www.metoffice.co.uk

Llywodraeth Cymru

<http://walesresilience.gov.uk/?skip=1&lang=cy>

Llywodraeth y DU

www.gov.uk/government/publications/preparing-for-emergencies



**Dogfen a gynhrychir gan:
Gweithgor Asesu Risgiau Fforwm Cydnerth Lleol Gwent**